

# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd Julia E. Williams

Ward: Hendre

**Plaid: Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Hendre ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 16 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

## Gweithgarwch Etholaeth

Bu'r gweithgarwch etholaeth yn brysur, yn llawer prysurach nag a ragwelais erioed.

Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd:

Cefnogi preswylwyr gyda materion sy'n ymwneud â'r casglu ailgylchu a sbwriel newydd a ddarperir gan Kier;

Baw cŵn – mae biniau gwastraff newydd wedi'u darparu ac mae'r cynllun Tikspac newydd i fynd i'r afael â baw cŵn wedi'i dreialu'n llwyddiannus yn Woodlands.

Ymhlith materion eraill mae cwynion am barcio ar Heol Hendre ac ar draws ward Hendre; materion torri glaswellt; cyfarfodydd safle ynglŷn â lledaenu Ffordd Hendre; a chyfweliadau â'r cyfryngau ynglŷn â'm gwrthwynebiad i gau'r gangen NatWest ym Mhen-coed a llawer mwy o ymholiadau o ddod o hyd i le ar gyfer Band Arian Pencoed i ymarfer i'r mater pwysicach o lobïo Llywodraeth Cymru i leihau cyflymder traffig ar yr A48, stori lwyddiant a ddaeth ar ôl trychineb.

Roedd llawer mwy o atgyfeiriadau, galwadau ffôn a sgysiau i sôn amdanynt yma.

### **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf, rwyf wedi eistedd ar bwyllgorau amrywiol gan gynnwys y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cymunedau; Pwyllgor Trwyddedu; Pwyllgor Apêl, a Phwyllgor Amlogfa Llangrallo.

Rwyf hefyd yn aelod o rota tîm ymweld sy'n ymweld â chartrefi gofal a sefydliadau anghenion arbennig yn y fwrdeistref sirol.

Rwyf hefyd yn rhan o'r tîm mentora ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddarparu clust gyfrinachol a chyfeillgar i gyd-gynghorwyr os bydd unrhyw aelod yn teimlo bod angen iddynt siarad â rhywun.

Rwyf wedi cefnogi Maer y fwrdeistref cymaint â phosibl, gan fynd i nifer o achlysuron i gefnogi ei dewis elusennau.

Yn fwy lleol, fel cynghorydd tref ar gyfer Hendre, rwy'n eistedd ar Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Pencoed.

Rwyf wedi mynd i gymaint o weithgareddau datblygu aelodau â phosibl sydd wedi helpu i gynyddu fy nealltwriaeth o faterion gwleidyddol cenedlaethol a lleol ac felly wedi fy helpu i gynrychioli'r bobl sydd wedi fy ethol.

### **Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf hefyd wedi cysylltu â Swyddogion Heddlu a Chymorth Cymunedol Lleol a mynd i gyfarfodydd PACT yn rheolaidd. Mae modd cael gafael arnaf 24/7 dros y ffôn, drwy e-bost neu neges destun a threfnais dair cymhorthfa etholaeth yn ystod 2017/18.

Rwyf hefyd yn aelod ac ymddiriedolwr Neuadd Les Glowyr Pencoed ac rwy'n aelod gweithgar o Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Gweithwyr Heol-y-cyw lle cynhelir llawer o achlysuron elusennol drwy gydol y flwyddyn.

**Y Cynghorydd J.E. Williams**

**Dyddiad: 21 Mai 2018**